

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

Tachwedd 2018

1. Ein dull o weithredu

1. Derbyniwyd tystiolaeth lafar gennym gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Hannah Blythyn AC, ar 8 Tachwedd. Casglwyd tystiolaeth ysgrifenedig gennym hefyd gan Ysgrifennydd y Cabinet a rhanddeiliaid. Mae rhestr o'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth wedi'i chynnwys yn Atodiad A.
2. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar hefyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar faterion yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad ar wahân ar y materion hynny.

2. Casgliadau cyffredinol

3. Mae cyfanswm gwariant Prif Grŵp Gwariant Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn cynyddu o £353.9 miliwn yng Nghyllideb Atodol Mehefin 2018-19 i £366.7 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2019-2020. Mae hyn yn gynydd o 3.6% (£12.8 miliwn) mewn termau arian parod a 2% mewn termau real (£7.1 miliwn).¹

2. 1. Ffyniant i bawb

4. Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018 ar gynydd tuag at gyflawni Ffyniant i Bawb. Yn yr Adroddiad hwnnw, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cynyddu ei blaenoriaethau o bump i chwech. Datgarboneiddio yw ei chweched flaenoriaeth.
5. Nid yw tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn adlewyrchu'r chwe blaenoriaeth. Mae'n hepgor datgarboneiddio, sy'n rhan allweddol o bortffolio

¹ Ceir dadansoddiad o'r ffigyrau yn nhystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet a'r tablau Llinell Wariant yn y Gyllideb cysylltiedig. Mae cymariaethau drwy'r adroddiad hwn rhwng Cynlluniau Newydd 2019-20 y Gyllideb Ddrafft a Chyllideb Atodol Mehefin 2018-19.



Ysgrifennydd y Cabinet. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hwn yn faes polisi sy'n symud yn gyflym ond nid yw hepgoriadau o'r fath yn adlewyrchu'n dda ar Ysgrifennydd y Cabinet.

2. 2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

6. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfeirio at y Ddeddf mewn sawl man, gan gynnwys enghreifftiau o ymyriadau a fydd yn cyfrannu at fodloni ei nodau llesiant:

“Mae fy mharatodau ar gyfer y gyllideb drafft yn dangos sut rwyf wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth bennu ein blaenoriaethau gwario. Adolygwyd y tueddiadau cyfredol a rhagdybiaethau'r dyfodol a'u heffeithiau potensial yn y tymor byr, canolig a hwy. Gwnaethom hyn i sicrhau, cyhyd ag y bo'n bosibl, nad yw ymatebion tymor byr yn arwain at effeithiau niweidiol tymor hwy.”²

7. Yn adroddiad y Pwyllgor hwn ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, argymhellodd y Pwyllgor, “er mwyn dangos sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llywio proses y gyllideb, dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori asesiad yn erbyn ei hamcanion llesiant yn ei phroses o asesu effaith”.

8. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw arwydd yn nhystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet bod yr argymhelliad hwn wedi ei weithredu.

2. 3. Tryloywder ac ymgysylltu

9. Nid yw tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfeirio o gwbl at ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac eithrio Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ystod y gwaith o ddatblygu cynigion y gyllideb ddrafft.

10. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru wrth y Pwyllgor:

“There has been no change to how WEL members have been involved in the budget process. We continue only to be able to have our views heard through the scrutiny process. There are models from other countries of how civil society and other stakeholders can be better

² http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s80286/CCERA_Draft_Budget.pdf

involved in the budget setting process. With the WFG Act and requirements in sustainable development principle to involve and collaborate, we would expect the Act to have led to better stakeholder involvement processes.”³

2. 4. Gwariant ataliol

11. Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dweud wrth y Pwyllgor nad yw Llywodraeth Cymru wedi dangos newid pwyslais priodol o driniaeth i atal hyd yn hyn.

12. O ran y mater o wariant ataliol, cyfeiriodd Cyswllt Amgylchedd Cymru at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, gan ddweud:

“The pace of Welsh Government progress on this agenda is concerning. Three years have passed since the Well-being of Future Generations Act was brought into force, yet the Welsh Government seems to have done little to change its approach...For WEL members, the lack of pace and demonstrable impact regarding the preventative agenda and related budget approach is another sign the Wellbeing of Future Generations legislation is not driving change at the pace needed to tackle many of the challenges faced, particularly from an environmental degradation perspective.”⁴

13. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn tystiolaeth ysgrifenedig ei bod “yn anodd pennu pa gyfran o’n cyllidebau sy’n ataliol”. Rhoddodd sawl enghraifft o fesurau ataliol yn ei phortffolio, gan gynnwys “darparu seilwaith gwyrdd”; Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol; a gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi i helpu i fynd i’r afael â thlodi tanwydd.⁵

Argymhellion

Argymhelliad 1. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor hwn yn ei adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19, “er mwyn dangos sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llywio proses y gyllideb, dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori asesiad yn erbyn ei hamcanion llesiant yn ei

³ www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=327&RPID=1013595283&cp=yes

⁴ *ibid*

⁵ http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s80286/CCERA_Draft_Budget.pdf

phroses o asesu effaith". Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae ei dull o ymdrin â chyllideb ddrafft 2019-20 yn adlewyrchu argymhelliad y Pwyllgor.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar unrhyw ymgynghori â rhanddeiliaid y mae wedi ymgymryd ag ef i lywio'r gwaith o ddatblygu'r gyllideb ddrafft. Os na fu unrhyw ymgynghori, dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y rhesymau dros hepgor datgarboneiddio fel chweched flaenoriaeth Ffyniant i Bawb.

3. Brexit

3.1. Cyllid yr UE ar gyfer cymorth amaethyddol

14. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gadw cymorth PAC (Cynllun y Taliad Sylfaenol) cyfredol ar gyfer 2019 yn gyson â'r taliadau presennol. Blwyddyn cynllun PAC 2019 fydd y flwyddyn olaf pan fydd rheolau a chyllid y PAC yn gymwys.

15. Mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, *Brexit a'n tir*, yn cyflwyno cynigion ar gyfer rhaglen rheoli tir newydd yng Nghymru i ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ar ôl Brexit. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig rhaglen i ddisodli systemau cymorth ariannol presennol ar gyfer amaethyddiaeth sy'n cynnwys dau gynllun ar wahân: y cynllun Cadernid Economaidd a'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus.

16. O dan y cynigion, disgwylir i daliadau uniongyrchol y PAC gael eu dirwyn i ben yn raddol o 2020 i gyflwyno'r cynlluniau newydd arfaethedig. Fodd bynnag, nid yw cyllid yn y dyfodol ar gyfer y cynlluniau hyn wedi ei bennu eto.

17. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet nad yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr eglurder sydd ei angen arni y bydd yn cael yr un faint o gyllid ar gyfer amaethyddiaeth ag y mae wedi bod yn ei derbyn, ac mae hynny dros £300 miliwn y flwyddyn. Wrth gyfeirio at y cynigion yn *Brexit a'n tir*, dywedodd ei bod yn anodd iawn cyflwyno polisi pan nad ydych yn gwybod pa gyllid yr ydych yn ei gael.⁶ Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod cyllid yn y dyfodol yn cael ei drafod

⁶ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

fel mater o drefn mewn cyfarfodydd pedrochrog â Gweinidogion o Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill.

18. Ym mis Hydref 2018, sefydlodd Llywodraeth y DU banel cynghori annibynnol i adolygu dyraniad cyllid cymorth domestig i ffermydd o fewn y DU o 2020 hyd 2022. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet sefydliad y panel, ond esboniodd nad oedd ganddi unrhyw fewnbwn i gwmpas yr adolygiad na'r cylch gorchwyl.⁷ Roedd wrthi'n ystyried cynnig Llywodraeth y DU i gynrychiolydd o Gymru fod yn aelod o'r panel.

Ein barn

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddiogelu cyllid cyffredinol ar gyfer cymorth i ffermydd y DU mewn termau arian parod hyd at ddiwedd y Senedd yn 2022. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r penderfyniad i beidio â chymhwyso fformiwla Barnett i newidiadau cyllid y tu hwnt i ddiwedd y Senedd hon yn 2022. Fodd bynnag, bydd trefniadau ariannu yn y tymor byr a'r tymor hir yn dibynnu ar gydweithredu a chydweithio effeithiol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol, felly, ynghylch y diffyg cydweithrediad tybiedig a welir dro ar ôl tro rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, mae Llywodraeth y DU unwaith eto wedi cyhoeddi penderfyniad sy'n effeithio ar Gymru heb ymgynghori â Llywodraeth Cymru ymlaen llaw. Nid yw hyn yn argoeli'n dda ar gyfer perthynas rynglywodraethol adeiladol ar ôl Brexit.

O ystyried y datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet bod canlyniad adolygiad y panel cynghori o ddyraniad cyllid cymorth i ffermydd o fewn y DU o 2020 hyd 2022 yn debygol o gyflwyno cynsail ar gyfer trefniadau ariannu yn y dyfodol, rydym yn pwysleisio'r angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n llawn â'r adolygiad hwn.

Nodwn nad oes unrhyw arian wedi ei ddyrannu ar gyfer sefydlu'r cynlluniau newydd hyd yn hyn. Mae'r Pwyllgor yn ceisio sicrwydd gan Ysgrifennydd y Cabinet na fydd y costau ar gyfer sefydlu cynlluniau newydd yn cael eu talu o'r cyllid sydd ar gael i gynorthwyo ffermwyr, ond y bydd cyllid ychwanegol ar gael at y diben hwnnw. O gofio sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn anodd iawn cyflwyno polisi pan nad ydych yn gwybod pa gyllid yr ydych yn ei gael, mae'r Pwyllgor wedi synnu ei bod hi wedi gallu bod mor ddiffiniol ynghylch y mathau o gynlluniau talu a gaiff eu cyflwyno ar ôl Brexit.

⁷ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd trefniadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer cymorth ffermio a rheoli tir yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig ac y bydd cydraddoldeb parch rhwng partneriaid.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad y bydd cyllid newydd ychwanegol ar gael ar gyfer sefydlu'r cynlluniau newydd.

3. 2. Polisi amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol

19. Mae Brexit a'n tir yn cynnig rhaglen rheoli tir newydd i ddisodli'r PAC. Mae'n nodi y bydd "cyfnod pontio dros sawl blwyddyn i reoli'r llwybr at y [rhaglen] newydd". Ni fydd y cyfnod pontio "yn dechrau cyn 2020". "Uchelgais lefel uchel" Llywodraeth Cymru yw cwblhau'r sefydliad a bod yn gweithredu yn unol â'r rhaglen newydd erbyn 2025.

20. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod y bydd y cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig "yn cymryd amser a gwaith paratoi sylweddol i'w sefydlu". Fel y cyfryw, "mae achos da dros ddyrannu arian i brosiectau peilot cyn rhoi'r trefniadau newydd ar waith ar raddfa lawn".

21. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer 2019-20 yn aros yr un fath, sef £520,000.

22. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor nad oedd cyllideb ddrafft 2019-20 yn cynnwys dyraniadau cyllid penodol i sefydlu cynlluniau peilot. Fodd bynnag, ychwanegodd y bydd yr arian hwnnw yno gan fod arian ar gyfer Brexit ar draws Llywodraeth a bod cwrmpas yn ein cyllideb bresennol i ariannu cynlluniau peilot. Nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn gallu cadarnhau a oedd digon o gyllid yng nghyllideb ddrafft 2019-20 i fodloni'r gost o sefydlu cynlluniau peilot gan nad oedd yn gwybod pa gynlluniau y bydd gennym.⁸

23. Ychwanegodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet mai'r bwriad oedd dechrau'r newid o gyflwyno rhai cynlluniau peilot yn 2020. Aeth yn ei flaen i ddweud:

"We're still in the CAP for the first part of next year...I think next year is probably more about designing what [pilots] look like based on some of the things that are already experimental...As we move forward into

⁸ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

2020, 2021, we'll be looking at other sorts of pilots that come through in those years, and we will have more flexibility in future budget years."⁹

24. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y gyllideb refeniw Ymchwil a Gwerthuso wedi aros yr un fath gan ei bod ar gyfer dau brosiect penodol, sef yr Arolwg Busnes Fferm a'r Sefydliad Ymchwil Polisi Bwyd ac Amaethyddiaeth (FAPRI-UK). Esboniodd ei swyddog y gellid defnyddio'r ddau brosiect hyn i gefnogi modelu ac asesiadau effaith sy'n deillio o gynigion ar gyfer y cynllun rheoli tir newydd. Dywedodd hefyd:

"A lot of [the work on impact assessments] we can do in-house with our own resources...And part of our additional Brexit resources that we have been allocated will include more economists, statisticians, and so on, to be able to do much of that in-house. We may need to contract some of that out to academic bodies. We have funds within our general admin budget to be able to commission that work."¹⁰

Ein barn

Bydd y cynigion a gyflwynir yn *Brexit a'n tir*, pe cânt eu mabwysiadu, yn arwain at y newid mwyaf sylweddol i'r ffordd y caiff ffermwyr Cymru eu cynorthwyo ers dros 40 mlynedd. Bydd angen cyflwyno'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen. Mae gwaith diweddar y Pwyllgor wedi amlygu maint yr her i Lywodraeth Cymru os yw'n mynd i ddatblygu a gweithredu cynllun a all gyflawni'r amcanion a nodir yn y ddogfen ymgynghori erbyn diwedd y cyfnod diwygio yn 2025.

Er na wnaed unrhyw benderfyniadau pendant ar gynlluniau yn y dyfodol, bydd angen gwneud rhagor o waith manwl, gan gynnwys modelu, asesiadau effaith a sefydlu cynlluniau peilot, cyn y gellir gweithredu'r cynlluniau newydd. Mae hyn o bwys arbennig o ystyried y cynigir ehangu pwy gaiff fanteisio ar y cynllun i gynnwys rheolwyr tir, ac nid ffermwyr yn unig. Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor ynghylch diffyg cynlluniau paratoi eglur. Os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu dechrau trosglwyddo i'r cynlluniau hyn yn 2020, bydd angen gwneud rhywfaint o waith paratoadol ym mlwyddyn ariannol 2019-20. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o sicrwydd bod lefel briodol o gyllid ar gael at y diben hwn.

⁹ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

¹⁰ *ibid*

Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet ar wahân yn gofyn am eglurhad ar gynlluniau i wneud gwaith modelu, gan gynnwys yr amserlenni dan sylw a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r gwaith hwn. Mae hefyd wedi gofyn am eglurhad ar amserlenni ar gyfer sefydlu cynlluniau peilot, graddfa cynlluniau peilot a sut y byddant yn cael eu hariannu. Rydym yn rhagweld y bydd ymateb ar gael i gyd-fynd â chyhoeddiad yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd pellach bod digon o gyllid ar gael yn yng nghyllideb ddrafft 2019-20 er mwyn gallu gwneud gwaith paratoadol, gan gynnwys modelu manwl, asesiadau effaith a sefydlu cynlluniau peilot.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, gynnal asesiad effaith ar y penderfyniad i ehangu pwy gaiff fanteisio ar y cynlluniau arfaethedig i gynnwys rheolwyr tir yn ogystal â ffermwyr.

3. 3. Gwasanaethau cymorth ffermio

25. Bu ail-ddyraniad o £1.6 miliwn o gyllid refeniw o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Gwasanaethau Cyngor Technegol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Strategaeth a Chysylltiadau'r Llywodraeth yng nghyllideb ddrafft 2019-20. Mae hyn yn ostyngiad o 90.1% mewn termau arian parod ar gyfer Gwasanaethau Cyngor Technegol.

26. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai'r cwbl yr oedd yr ail-ddyraniad o £1.6 miliwn oedd symud ymrwymadau gwariant presennol i linell arall yn y gyllideb at ddibenion cyflwyniadol ac na fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau buddsoddi uniongyrchol.¹¹

27. Wrth wneud sylwadau ynghylch i ba raddau y mae cyllideb ddrafft 2019-20 yn ystyried gofynion gwasanaeth cynghori i gynorthwyo'r trosglwyddiad i'r cynlluniau newydd arfaethedig yn Brexit a'n tir, esboniodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod Cyswllt Ffermio yn newid pwyslais ei waith i ymateb i unrhyw newid pwyslais yn y cyngor sy'n cael ei geisio. Meddai:

“The new systems that we will put in place to deliver the vision in ‘Brexit and our land’—we aren't at that stage yet. That's probably next financial year.”¹²

¹¹ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

¹² *ibid*

Ein barn

Yn absenoldeb unrhyw benderfyniadau pendant neu amserlenni manwl ar gyfer cyflwyno'r cynlluniau newydd, mae'n anodd asesu lefel y cyllid sydd ei angen yn y flwyddyn ariannol nesaf i gynorthwyo gwaith paratoadol.

O gofio bod Llywodraeth Cymru yn cynnig dechrau trosglwyddo yn 2020, byddem wedi disgwyl i gyllideb ddrafft 2019-20 adlewyrchu pwyslais cynyddol ar ddatblygu a pharatoi gwasanaethau cynghori ar gyfer allgymorth i ffermwyr yn arwain at y trosglwyddo ac yn ystod y trosglwyddo.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu na fydd newid pwyslais Cyswllt Ffermio yn agos at fod yn ddigonol i baratoi ar gyfer trosglwyddo. Mae angen asesiad ar frys o'r adnoddau y bydd eu hangen.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r adnoddau y bydd eu hangen i sicrhau bod digon o gynghorwyr cyn dechrau'r broses o drosglwyddo i gynlluniau newydd. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad ar gyfer 2019-20 a 2020-21.

3. 4. Pysgodfeydd

28. Cyflwynwyd Bil Pysgodfeydd y DU yn y Senedd ar 25 Hydref 2018. Mae'r Bil yn cefnogi'r broses o symud oddi wrth Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

29. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

“Mae swyddogion yn gweithio'n agos â Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i lunio Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU...Mae fy swyddogion yn ystyried swyddogaethau ychwanegol tebygol y bydd angen inni ymgymryd â hwy wrth inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â Rheoli a Gorfodi, Gwyddoniaeth, Polisi, Gwaith Rhyngwladol a Deddfwriaeth. Byddaf yn ystyried opsiynau ar gyfer y swyddogaethau ychwanegol hyn yn y dyfodol agos fel rhan o flaenoriaethu cyllid ar draws fy mhortffolio.”¹³

30. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud ei bod yn bwriadu cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru, er na wŷr amseriad hyn. Esboniodd y byddai'n ymgynghori

¹³ http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s80286/CCERA_Draft_Budget.pdf

yn 2019 ar gynigion i lywio datblygiad polisi pysgodfeydd ar ôl Brexit, ac y byddai angen iddi ystyried y goblygiadau ariannol yn dilyn y gwaith hwnnw.

Ein barn

Cyflwynwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU yn y Cynulliad ar 15 Tachwedd. Dywed y Memorandwm “Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i Gymru o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil hwn”. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu craffu ar ddarpariaethau'r Bil a bydd yn paratoi adroddiad ar wahân maes o law.

Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu ymgynghori ar ddyfodol polisi pysgodfeydd Cymru yn 2019.

3. 5. Llywodraethu Amgylcheddol

31. Mae adroddiad y Pwyllgor, Trefniadau Llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit, yn amlinellu “bwlch llywodraethu” amgylcheddol pan na fydd systemau llywodraethu'r UE yn berthnasol i'r DU mwyach ar ôl Brexit. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y “bydd angen adnoddau, cyllid ac arbenigedd sylweddol ar unrhyw system [lywodraethu] newydd”. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i egluro ei safbwynt ar sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol y DU gyfan, ac i asesu'r adnoddau y byddai eu hangen ar gyfer corff Cymru yn unig.

32. Disgwylir i Lywodraeth y DU gyflwyno Bil Egwyddorion a Llywodraethu Amgylcheddol erbyn diwedd 2018. Nid yw'n glir a fydd y Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer corff y DU gyfan neu Loegr yn unig. Dywed Ysgrifennydd y Cabinet:

“We are currently in the process of consultation; the outcome of which would assist in the consideration to introduce a body for Wales. However, in the meantime, discussions are progressing with the UK Government to determine whether a UK approach will be appropriate...With regard to cost, it is too early to detail the costs.”¹⁴

33. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd unrhyw ddyraniad yng nghyllideb ddrafft 2019-20 i ariannu sefydliad corff llywodraethu newydd na ellid defnyddio unrhyw gyllid heb ei ddyrannu yn ei hadran hi at y diben hwn. Fodd

¹⁴ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

bynag, esboniodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet y gellid, o bosibl, sicrhau bod cyllid ar gael o gronfa Bontio Ewrop.

Ein barn

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyhoeddi eto ei phenderfyniad ar ddull ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol newydd. O gofio hyn, ac yn absenoldeb amserlen arfaethedig ar gyfer sefydlu unrhyw gorff newydd, mae'n anodd i'r Pwyllgor asesu lefel y cyllid sydd ei angen yn y flwyddyn ariannol nesaf i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ei gwneud yn eglur y bydd angen gwneud llawer iawn o waith dadansoddi cyn sefydlu corff newydd. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i ryw lefel o waith paratoadol fod yn ofynnol yn 2019-20. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oes unrhyw ddyraniad penodol yng nghyllideb ddrafft 2019-20 at y diben hwn.

Mae'r Pwyllgor yn siomedig na chynhaliwyd unrhyw asesiad, hyd yn hyn, o rwymedigaethau cost corff y DU gyfan neu gorff Cymru yn unig.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei bod yn bwriadu defnyddio'r model ar gyfer sefydlu Comisiwn Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel cymhariaeth. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am esboniad o ddull arfaethedig Ysgrifennydd y Cabinet.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am sut y bydd unrhyw waith paratoadol sy'n gysylltiedig â sefydlu corff rheoleiddio amgylcheddol newydd yn cael ei wneud yn unol â dyraniadau presennol yng nghyllideb ddrafft 2019-20.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar pam mae'n credu bod Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn fodel priodol ar gyfer sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol.

3. 6. Staffio Brexit

34. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y cymeradwywyd 50 o swyddi newydd i gynorthwyo gwaith sy'n gysylltiedig â Brexit yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Byddai'r rhain yn cael eu hariannu o'r gyllideb adrannol bresennol. O ddechrau mis Hydref, roedd 35 o aelodau staff newydd wedi eu recriwtio ac roedd ymgyrch recriwtio arall ar y gweill. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“The existing resources, even with 50 extra staff already identified, are insufficient to carry out [Brexit-related] tasks. There will need to be a burst of activity over the next 2 ½ years up to the end of 2020 to put in place the necessary framework and systems for the post Brexit world. However, I would not be able to fund any additional Brexit related staff.”¹⁵

35. Esboniodd fod cyllid wedi ei neilltuo o'r swm canlyniadol sy'n gysylltiedig â Brexit i ariannu 200 o aelodau staff ychwanegol ar draws Llywodraeth Cymru. Byddai'r cyllid hwn ar gael ar gyfer 2018-19 a 2019-20. O'r staff ychwanegol, byddai 144 yn cael eu recriwtio i adran Ysgrifennydd y Cabinet, ar gontractau dwy flynedd tymor byr yn bennaf.¹⁶

36. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai angen iddi ystyried, ar yr adeg briodol, yr achos dros gadw'r staff ychwanegol y tu hwnt i 2020.

Ein barn

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod gofynion Brexit ar adran Ysgrifennydd y Cabinet ac ar draws y llywodraeth. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i sicrhau bod Cymru yn barod, cyn belled â phosibl, i ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau. Mae hyn, yn anochel, wedi cynnwys cynnydd pellach yn nifer y staff yn adran Ysgrifennydd y Cabinet.

Beth bynnag fo'r ansicrwydd sy'n parhau ynghylch telerau ymadael y DU â'r UE, nid oes unrhyw amheuaeth y bydd y gofynion ar yr adran yn sicr o gynyddu. Er mai'r ddwy flynedd nesaf fydd y mwyaf hollbwysig, mae'n bosibl y bydd y gofynion ar yr adran yn parhau y tu hwnt i 2020, er enghraifft, wrth i newidiadau polisi sylweddol gael eu gweithredu. Mae'r Pwyllgor yn cwestiynu sut y bydd y swyddi newydd, sy'n gytundebau dwy flynedd yn bennaf, yn cael eu hariannu y tu hwnt i 2020, os bydd yr angen yn codi.

Ar nodyn ehangach, ceir cost cyfle cyffredinol sylweddol sy'n gysylltiedig ag ariannu paratodau Brexit na ellir ei hanwybyddu. Gan roi unrhyw gyfleoedd i Gymru a all godi o Brexit o'r neilltu, mae'n glir bod gwariant ar baratodau yn adran Ysgrifennydd y Cabinet ac ar draws y llywodraeth eisoes yn sylweddol. Mewn cyd-destun o doriadau i gyllid Llywodraeth y DU i Gymru, a chyni parhaus,

¹⁵ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

¹⁶ *ibid*

mae'n anffodus na allai Llywodraeth Cymru fod wedi defnyddio'r arian hwn i fuddsoddi yn ei blaenoriaethau ei hun.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion sut a phryd y bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud i bennu a ddylid cadw'r swyddi newydd i gefnogi gwaith Brexit y tu hwnt i 2020. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a fydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud mewn pryd i hysbysu'r cylch cynllunio cyllideb nesaf.

4. Datgarboneiddio

37. Yn 2018, ychwanegodd Llywodraeth Cymru chweched maes blaenoriaeth, datgarboneiddio, at ei strategaeth genedlaethol "Ffyniant i Bawb".

38. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno system o dargedau interim a "chyllidebau carbon", â'r nod yn y pen draw o gyflawni gostyngiadau o 80% neu fwy mewn allyriadau o dan lefelau 1990, erbyn 2050. Ar 6 Tachwedd 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru bum set o Reoliadau, a adwaenir ar y cyd fel Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018, er mwyn rhoi'r ymrwymïadau hyn ac ymrwymïadau cysylltiedig eraill ar waith.

39. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori yn ddiweddar ar y camau y dylid eu cymryd hyd at 2030 i leihau allyriadau ("Cyflawni ein Llwybr Carbon Isel at 2030"). Bydd y canlyniadau yn llywio cynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cyllidebau carbon cyntaf, a dilynol o bosibl. Mae safbwyntiau rhanddeiliaid ar y cynigion wedi bod yn gymysg, wrth i rai mynegi pryder nad yw cost, manteision ac effeithiau ehangach y camau arfaethedig wedi eu hasesu eto.

40. Ar y mater hwn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"As with all costs, there's always uncertainty when you look long-term ...But, obviously, any new actions that we do take forward would have to be impact assessments and, obviously, cost analysis."¹⁷

4. 1. Tlodi tanwydd

41. Mae cyllid refeniw ar gyfer y Rhaglen Tlodi Tanwydd (Llinell Wariant yn y Gyllideb 1270), sy'n cynnwys cyllid ar gyfer cynlluniau Arbed a NYTH wedi gostwng £0.5 miliwn o £3.4 miliwn i £2.9 miliwn. Mae hyn yn ostyngiad o 14.7% mewn

¹⁷ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

termau arian parod ac o 16% mewn termau real. Bwriedir darparu £27 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer y rhaglen yn 2019-20, gan ostwng i £23 miliwn yn 2020-21. Mae cyllid ar gyfer Rhaglenni Effeithlonrwydd Ynni (Llinell Wariant yn y Gyllideb 3771) wedi gostwng o £400,000 i ddim.

42. Esboniodd y Swyddog a ddaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet mai'r rheswm am y gostyngiad i gyllid refeniw oedd o ganlyniad i'r tîm yn ail-dendro ar gyfer y broses a, thrwy hynny, cawsant ganlyniad caffael gwell a ganiataodd iddynt arbed arian i'w ddefnyddio mewn mannau eraill. Ond arhosodd y gronfa gyfalaf gyffredinol yr un fath.¹⁸

43. Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol¹⁹ i ddileu tlodi tanwydd, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, o bob aelwyd yng Nghymru erbyn 2018. Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor hwn ar gyllideb ddrafft 2018-19, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Updated fuel poverty figures will also be available at the end of 2018 as part of the Welsh Housing Conditions Survey and we will use this data, once available, to help determine our future actions and realistic timescales.”²⁰

44. Aeth yn ei blaen i ddweud y byddai'r canlyniadau yn llywio datblygiad cynllun tlodi tanwydd newydd, ond cyn hynny:

“Publication of the headline, national level results has been announced for November 2018 in line with the Code of Practice for Statistics. In early 2019 detailed analysis of the resultant Fuel Poverty estimates will also be published.”²¹

45. Mewn ymateb i adroddiad blynyddol y Pwyllgor hwn ar liniaru'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer 2018-2019, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Mae'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai yn cael ei hariannu tan ddiwedd mis Mawrth 2019. Bydd angen gwneud penderfyniad yn y dyfodol agos i ymestyn y Rhaglen, er mwyn parhau i ddefnyddio'r data.”²²

¹⁸ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

¹⁹ O dan yr Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru 2003, fel sy'n ofynnol o dan *Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000*.

²⁰ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

²¹ *ibid*

²² <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11668/gen-ld11668-w.pdf>

Ein barn

Prin yw'r dystiolaeth bod cynnwys datgarboneiddio fel y chweched flaenoriaeth yn Ffyniant i Bawb wedi llywio penderfyniadau ar ddyraniadau cyllideb eleni. Yng nghyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf, rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth glir o'r newid hwn ac, yn ogystal, dylai fod yn amlwg ar draws portffolios y Cabinet.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n atodi'r Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) yn dweud y bydd £2 biliwn ychwanegol yn cael ei ysgwyddo i fodloni'r gyllideb garbon gyntaf (2016-20). Mae'r Asesiad yn glir bod y swm hwn yn cyfeirio at gostau cyffredinol a ysgwyddir, nid costau ymyriadau Llywodraeth Cymru yn unig. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oes unrhyw dystiolaeth yn y gyllideb ddrafft o ddyraniadau cyllid ar gyfer ymyriadau newydd neu ychwanegol.

Yn ôl yr amcangyfrif diweddaraf gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael i'r cyhoedd, mae 291,000 (neu 23%) o aelwydydd Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cadarnhau ei bod yn annhebygol y bydd targed 2018 yn cael ei fodloni.

Yn adroddiad y Pwyllgor hwn ar Dai Carbon Isel (Gorffennaf 2018), gwnaed sylwadau gennym ar y diffyg brys o ran mynd i'r afael â hyn a materion eraill. Yn ei hymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y gofynnwyd i "Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio". Gweinidogol ystyried y mater hwn a materion cysylltiedig ac y byddai'n adrodd yn ystod haf 2019. Nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw ddyraniadau ychwanegol yng nghyllideb ddrafft 2019-20 i ymateb i argymhellion y Grŵp hwn, neu fwrw ymlaen â nhw. Mae'r Pwyllgor yn ailddatgan ei bryder ynghylch diffyg brys yn ymateb Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Yn benodol, rydym yn siomedig gydag ymateb annigonol i'w methiant i fodloni ei thargedau tlodi tanwydd.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ei chynllun cyflawni carbon isel sydd ar fin cael ei gyhoeddi, a fersiynau'r dyfodol, ar ffurf ddrafft i'r Pwyllgor hwn, ac i Bwyllgorau Cynulliad perthnasol eraill, er mwyn galluogi'r Cynulliad i lywio ei ddatblygiad.

Argymhelliad 13. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi, ochr yn ochr â'i chynllun cyflawni carbon isel, ddadansoddiad cost a budd manwl o bob un o'r camau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun.

Argymhelliad 14. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei dadansoddiad manwl o amcangyfrifon Tlodi Tanwydd, a ddisgwylir ar ddechrau 2019, i bennu

amserlen ar gyfer dileu tlodi tanwydd. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn cyn gynted ag y mae wedi gwneud hynny.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei hamserlen ar gyfer datblygu cynllun tlodi tanwydd newydd. Dylai ddarparu ei chynllun tlodi tanwydd ar ffurf ddrafft i'r Pwyllgor hwn, a Phwyllgorau Cynulliad perthnasol eraill, er mwyn caniatáu i'r Cynulliad lywio ei ddatblygiad.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar adeg briodol ar ba un a yw wedi penderfynu parhau i ariannu'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai y tu hwnt i fis Mawrth 2019.

5. Cyfoeth Naturiol Cymru

46. Mae refeniw i Cyfoeth Naturiol Cymru (Llinell Wariant yn y Gyllideb 2451) yn gostwng £2.1 miliwn o £68.4 miliwn i £66.3 miliwn. Mae hwn yn doriad o 3% mewn termau arian parod (4.5% mewn termau real). Mae cyfalaf ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (Llinell Wariant yn y Gyllideb 2451) yn gostwng £0.6 miliwn o £3.3 miliwn i £2.7 miliwn. Mae hwn yn doriad o 18.4% mewn termau arian parod (19.7% mewn termau real). Mae gostyngiad pellach o £1 miliwn yn yr arfaeth ar gyfer 2020-21.

47. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi wynebu gostyngiadau sylweddol i'w gyllideb. Mae hyn wedi cyd-daro â deddfwriaeth Cynulliad, fel Deddf yr Amgylchedd, yn cyflwyno rhwymedigaethau ychwanegol ar y sefydliad. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn tystiolaeth ysgrifenedig na ellid amddiffyn Cyfoeth Naturiol Cymru rhag gostyngiadau refeniw a'i bod wedi lleihau Cymorth Grant 5% ar gyfer 2018-2019 a 5% arall ar gyfer 2019-20.

48. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Mae gostyngiad i gyllid refeniw "yn bygwth y gwasanaethau a'r dyletswyddau newydd y gallwn eu cynnig";
- Ers creu Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2013, bydd ei Grant Cymorth sylfaenol nad yw ar gyfer llifogydd wedi gostwng £14 miliwn (20% mewn termau arian parod, 35% mewn termau real);
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i roi "proses sy'n fwy cyfranogol" ar waith ar gyfer y cyfnod o 2020-21 ymlaen; a

- Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno achos busnes ar ddechrau 2019 i “ariannu...yn iawn” ei weithrediad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn 2020-21.

49. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn trafod sut y gellir mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r opsiynau sy'n cael eu harchwilio yn cynnwys: Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw ffioedd opsiwn ffermydd gwynt ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (yn hytrach na bod y ffioedd yn mynd i Lywodraeth Cymru); Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu codi tâl am fwy o'r gwasanaethau y mae'n eu rheoleiddio; a setliadau ariannu sawl blwyddyn.

50. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“They've [NRW] been subject to an increase in legislative requirements, as you've just described. At the moment, I'm confident that they are managing their budget in a way that ensures that they fulfil all their statutory responsibilities and that they are looking for new and imaginative ways to increase the funding.”²³

51. Aeth yn ei blaen i ddweud pe byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o ofynion ar Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'n rhaid iddo ystyried yn ofalus sut y bydd yn eu hariannu.²⁴

52. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru wrth y Pwyllgor:

“It is our view that key NRW functions – integral to restoring our degraded ecosystems – are chronically under-resourced. For example, there has been no condition assessment of Wales' nationally important sites for biodiversity (Sites of Special Scientific Interest) since CCW's 'Rapid Review' in 2006, and the budget for management agreements to enable land managers to enhance the status of protected site features continues to diminish.”²⁵

53. Wrth graffu ar gyllideb y llynedd, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu ail-lunio'r sefydliad â llai o staff. Disgwylir i'r broses gael ei chwblhau erbyn 1 Ebrill 2019 a sicrhau arbedion o £10 miliwn. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn tystiolaeth ysgrifenedig ei bod wedi dyrannu £ 0.7

²³ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

²⁴ *ibid*

²⁵ <http://senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=327>

miliwn ychwanegol o ran canlyniad ymarfer gwerthuso swyddi Cyfoeth Naturiol Cymru.

54. Mynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru bryder mewn tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch ei ddyraniad cyfalaf o £0.8 miliwn (nad yw'n cynnwys dyraniad ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru) yng nghyswllt gofyniad o fwy na £5 miliwn. Y mater mwyaf arwyddocaol yw ariannu gwelliannau a ddynodwyd yn ddiweddar i gronfeydd dŵr sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mewn ymateb i gwestiwn ar y mater hwn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“... as often happens, they've had to take responsibilities on from the UK Government, but the funding hasn't followed. So, we've certainly made representations to the Treasury, because I think—you know, you need additional funding. When we have additional responsibilities or powers, we need the additional funding. So, again, I am looking specifically at their capital, because I am aware of this problem that they've got. But also I think we do need to make sure we get some extra funding from the UK Government.”²⁶

Ein barn

Nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi nad yw'r gostyngiad parhaus i gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru wedi effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau craidd. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cyllid wedi'i ddyrannu mewn cyd-destun o setliad ariannol anodd gan Lywodraeth y DU. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud ei bod yn credu y gall Cyfoeth Naturiol Cymru barhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu ynghylch yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ei gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau anstatudol eraill. Byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am y gwasanaethau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi'r gorau i'w darparu ac asesiad o effaith y penderfyniadau hynny.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno achos busnes ar ddechrau 2019 i “ariannu...yn iawn” ei weithrediad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn 2020-21. Mae hyn yn awgrymu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu na fydd ei gyllid yn ddigonol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn y dyfodol agos.

Rydym yn falch bod swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd i gynyddu incwm Cyfoeth Naturiol Cymru ac i ddarparu sicrwydd tymor hwy ynghylch cyllid. Rydym yn croesawu ymrwymiad

²⁶ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

Ysgrifennydd y Cabinet y bydd unrhyw ofynion pellach ar Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am gynnydd i gyllid.

Adroddodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor hwn ym mis Mehefin 2018 ar gynnydd trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â materion yn ymwneud â chynllun sefydliadol a threfniadau ariannu yn y dyfodol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am gynnydd, gan gynnwys y £0.7 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd o ran canlyniad ymarfer gwerthuso swyddi Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal ei sesiwn graffu flynyddol reolaidd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddechrau 2019.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd o ran sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r diffyg cyllid sy'n deillio o welliannau a ddynodwyd yn ddiweddar i gronfeydd dŵr sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf ar gynnydd trafodaethau ynglŷn â chyllid Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys opsiynau i gynyddu gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu incwm ac ar gyfer setliad ariannol tymor hwy.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru nodi unrhyw ddyletswyddau ychwanegol neu newydd y mae'n disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru eu cyflawni yn ystod y cyfnod cyllidebol hwn a nodi'r cyllid a ddyrannwyd at y dibenion hynny.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am y £0.7 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd o ran canlyniad ymarfer gwerthuso swyddi Cyfoeth Naturiol Cymru.

6. TB Buchol

55. £7.5 miliwn ar gyfer Dileu TB (Llinell Wariant yn y Gyllideb 2273) a £ 9.4 miliwn ar gyfer Costau a Derbynebaw Lladd TB (Llinell Wariant yn y Gyllideb 2272) yw'r gyllideb refeniw ar gyfer dileu TB ac iawndal ar gyfer 2019-2020. Mae hyn cyfateb i ostyngiad mewn termau real o 1.6% (£464,000) ar gyfer Dileu TB ac 1.7% (£126,000) ar gyfer iawndal.

56. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn tystiolaeth ysgrifenedig ei bod yn disgwyl gallu rheoli'r rhaglen hon a arweinir gan alw o fewn y pecyn cyllideb

lechyd Anifeiliaid cyffredinol.²⁷ Cydnabu y gallai unrhyw achos o glefyd arwain at rwymedigaethau cost i'w phortffolio.

57. Dechreuodd Rhaglen Dileu TB Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 ac mae'n cynnwys amrywiaeth o ymyriadau. Mae'r rhaglen hefyd yn lleihau swm yr iawndal a delir i ffermwyr am wartheg a laddwyd oherwydd TB. O 1 Hydref 2017, gostyngwyd y terfyn uchaf blaenorol o £15,000 ar iawndal TB sy'n daladwy fesul anifail i £5,000. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y gellid ailystyried lefelau iawndal yn sgil data a gasglwyd ynglŷn â thaliadau iawndal yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf yn dilyn y gostyngiad.

58. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru raglen frechu ar gyfer moch daear yn y gorffennol, ond bu'n rhaid ei gohirio oherwydd prinder byd-eang o'r brechlyn TB. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor hwn ar 18 Gorffennaf 2018 ei bod yn disgwyl i'r rhaglen frechu ail-ddechrau yn ddiweddarach yn 2018. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor nad oes digon o frechlyn ar gael ar gyfer y rhaglen gyfan. Yn hytrach, bydd cyllid ar gyfer cynlluniau peilot.

59. Cyfeiriodd y Prif Swyddog Milfeddygol at raglen dreialu a oedd yn cael ei chynnal ym mhenrhyn Gŵyr. Dywedodd:

“we'll be providing the vaccine to them—we'll be paying for that—and also putting some additional funding in to help support that project, but they will need other funding, so they're seeking other sources in a very imaginative way at the moment. And the work won't just be about vaccinating badgers. It'll be about working together on the cattle side as well. So, it's a really good example of collaboration.”²⁸

Ein barn

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i wneud datganiad ar gynnydd y Rhaglen Dileu TB ym mis Ebrill 2019. Dylai hyn gynnwys diweddariad ar daliadau iawndal. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn maes o law ar unrhyw ddadansoddiad o briodoldeb lefelau iawndal.

Rydym yn ailddatgan argymhelliad y Pwyllgor yn ei adroddiad ar TB Buchol (Mai, 2017), y dylai Llywodraeth Cymru dalu swm iawndal rhesymol i ffermwyr

²⁷ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

²⁸ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

am wartheg a laddwyd yn rhan o'r rhaglen ddileu TB. Dylai'r swm hwn barhau i gael ei adolygu, trwy ymgynghori â rhanddeiliaid.

Byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am ei chynlluniau ar gyfer defnyddio'r brechlyn TB, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â rhaglen o'r fath.

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ym mis Ebrill 2019 ar gynnydd y Rhaglen Dileu TB. Dylai hyn gynnwys diweddariad ar y gostyngiad yn nifer yr achosion o TB buchol ac ar daliadau iawndal.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd cynlluniau peilot brechu TB. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am faint a chost ddisgwyliedig hyn.

7. Ansawdd aer

60. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud ei bod yn gwneud dyraniadau ychwanegol i gefnogi ansawdd aer. Mae hyn yn cynnwys cyllid canlyniadol ar lefel y DU i gefnogi'r gwaith hwn, gyda chyllid refeniw o £0.6 miliwn yn 2019-20, cyfalaf o £6.5 miliwn yn 2019-20 a £2.8 miliwn ychwanegol o gyfalaf yn 2020-21.

61. Ar 24 Ebrill 2018, cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd gyflwyniad Rhaglen Aer Glân Cymru. Nod cyntaf y rhaglen fydd sicrhau cydymffurfiad â rhwymedigaethau ansawdd aer presennol. Dywedodd y Gweinidog mai ei nod ehangach fydd lleihau baich ansawdd aer gwael ar iechyd pobl a'r amgylchedd.

62. Dywedodd y Gweinidog mai un o elfennau craidd Rhaglen Aer Glân Cymru fydd Cynllun Aer Glân, a fydd yn destun ymgynghoriad erbyn diwedd 2018.

63. Cyhoeddwyd cronfa newydd gwerth £20 miliwn i leihau allyriadau a gwella'r amgylchedd yng Nghymru ar 24 Ebrill 2018 hefyd. Bwriedir i'r "Gronfa Ansawdd Aer", a fydd yn para tan 2021, gynorthwyo awdurdodau lleol i gydymffurfio â chyfyngiadau nitrogen deuocsid a gwella ansawdd aer yn eu hardaloedd.

64. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod cyllid refeniw o £0.6 miliwn yn 2019-20 a £6.475 miliwn o gyfalaf yn 2019-20 a chyfalaf ychwanegol o £2.815 miliwn yn 2020-21 wedi ei ddyrannu i sefydlu Canolfan Monitro ac Asesu Ansawdd Aer i Gymru.

Ein barn

Canfuwyd yn ystod adolygiad barnwrol bod Llywodraeth Cymru wedi methu â bodloni gofynion y gyfarwydddeb ansawdd aer amgylchynol a rheoliadau cysylltiedig Cymru. Rhan o'i hymateb uniongyrchol fu creu cronfa Ansawdd Aer gwerth £20 miliwn. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl am y nifer sydd wedi manteisio ar y gronfa a chynnydd tuag at fodloni'r gofynion cyfreithiol.

Nid oes unrhyw ddyraniad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer gweithredu cynllun Aer Glân. O gofio y bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi yn 2019, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl gweld dyraniadau cyllid cysylltiedig yng nghyllideb ddrafft 2019-20.

Argymhelliad 23. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y nifer sy'n manteisio ar y gronfa Ansawdd Aer. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr awdurdodau lleol sydd wedi defnyddio'r gronfa a'r cynnydd a wnaed o ganlyniad i'r cyllid hwnnw. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd esbonio sut y bydd yn gwerthuso effeithiolrwydd y defnydd o ddyraniadau o'r gronfa.

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ei chynllun Aer Glân ar ffurf ddrafft i'r Pwyllgor hwn, fel y gall y Pwyllgor lywio ei ddatblygiad.

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd tuag at sefydlu'r Ganolfan Monitro ac Asesu Ansawdd Aer i Gymru.

8. Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol

65. Mae cyllid refeniw ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a Dŵr (Llinell Wariant yn y Gyllideb 2230) yn cynyddu £2.4 miliwn o £22.4 miliwn i £24.8 miliwn. Mae hyn yn gynydd o 10.5% mewn termau arian parod (8.8% mewn termau real). Mae cyfalaf ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a Dŵr (Llinell Wariant yn y Gyllideb 2230) yn gostwng £7.5 miliwn o £34.5 miliwn i £27 miliwn. Mae hwn yn doriad o 21.7% mewn termau arian parod (22.9% mewn termau real).

66. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn amlygu buddsoddiad mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol fel enghraifft o wariant ataliol. O ran pwyslais y buddsoddiad hwn, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“The risk isn't static, which is why we're always keen to review and to assess what we're doing, and to work with NRW as one of our partners,

but also in terms of making sure that we prioritise our investment in those areas that we know from our criteria are most at risk.”²⁹

67. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod gwaith wedi cychwyn ar strategaeth genedlaethol newydd ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordirol. Sefydlwyd Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd i gynghori'r Gweinidog ac awdurdodau rheoli risg (Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a chwmnïau dŵr).

68. Diben y £2.4 miliwn ychwanegol o gyllid refeniw yn y gyllideb ddrafft yw cynorthwyo taliadau i awdurdodau lleol yn rhan o'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol. Bydd y Rhaglen hon yn cael ei hariannu trwy Fenter Benthycia Llywodraeth Leol. Yn y sesiwn graffu ar gyllideb ddrafft y llynedd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu 75 y cant o hyn ac y bydd y 25 y cant arall yn cael ei ariannu yn lleol. Byddai 75 y cant y Llywodraeth o'r cyllid yn cael ei roi i awdurdodau lleol fel refeniw i gynorthwyo'r ad-daliadau o dan y fenter. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag archwilio dulliau arloesol o ariannu, dywedodd y Gweinidog:

“we're always keen to look at more innovative ways of doing that, and that links in in terms of the whole stakeholder and community involvement as well.”³⁰

69. Mae'r gostyngiad o £7.5 miliwn i gyfalaf yn adlewyrchu'r ffaith bod cyllideb y llynedd yn cynnwys cynnydd i ddatblygu rhai cynlluniau penodol. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig yn nodi bod y gostyngiad yn dychwelyd y gyllideb gyfalaf i lefelau a gytunwyd yn flaenorol.

Ein barn

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r buddsoddiad mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r strategaeth genedlaethol newydd ac eglurhad gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch a oes unrhyw ddyraniadau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer gweithredu'r strategaeth, neu unrhyw gamau sy'n deillio ohoni.

Pan gyhoeddwyd y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol, disgwyliwyd y byddai gwerth £150 miliwn, y byddai'n cael ei hariannu gan Gronfa Ewrop ar gyfer Buddsoddi Strategol Banc Buddsoddi Ewrop, ac y byddai'n para rhwng 2018 a

²⁹ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

³⁰ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>

2022. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ers hynny y bydd y rhaglen yn cael ei hariannu drwy'r Fenter Benthycu Llywodraeth Leol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am effaith y newid hwn a'r nifer sydd wedi manteisio ar y Rhaglen hyd yn hyn.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu sylwadau'r Gweinidog ynghylch ffynonellau eraill o fuddsoddiad a byddai'n ddiolchgar am ragor o wybodaeth am y mater hwn.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen am wariant cynaliadwy ac ataliol o ran rheoli llifogydd ac mae'n bwriadu edrych ar hyn yn fanylach ar ddechrau 2019.

Argymhelliad 26. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y nifer sy'n manteisio ar y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol o fewn 6 mis. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr awdurdodau lleol sydd wedi defnyddio'r gronfa a'r cynnydd a wnaed o ganlyniad i'r cyllid hwnnw. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd esbonio sut y bydd yn gwerthuso effeithiolrwydd y defnydd o ddyraniadau o'r gronfa.

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei chynnydd o ran denu ffynonellau buddsoddiad eraill ar gyfer ymyriadau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol.

9. Cynllunio defnydd tir

70. Mae'r adnoddau ar gyfer Gwariant Cynllunio a Rheoleiddio (Llinell Wariant yn y Gyllideb 2250) yn gostwng £0.2 miliwn o £5.2 miliwn i £5 miliwn. Mae hyn yn ostyngiad o 3.8% mewn termau arian parod (5.3% mewn termau real).

9.1. Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

71. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, fframwaith strategol 20 mlynedd â statws cynllun datblygu. Disgwylir i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol terfynol gael ei gyhoeddi, yn dilyn ystyriaeth gan y Cynulliad, ym mis Medi 2020.

72. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi mai tua £0.4 miliwn fydd cost llunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn ystod 2019-20. Caiff y gost hon ei thalu o gyllideb bresennol y Gyfarwyddiaeth Cynllunio.

9. 2. Trefniadau cydsynio seilwaith newydd

73. Datganolwyd rhagor o bwerau cydsynio ynni yn sgil Deddf Cymru 2017, gan gynnwys ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni â chapasiti o hyd at ac yn cynnwys 350MW. Bydd y pwerau newydd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2019.

74. Oherwydd yr amserlen fer ar gyfer gweithredu'r trefniadau newydd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno dull gweithredu interim erbyn 1 Ebrill 2019, i'w ddilyn gan ateb parhaol ar ôl 2020. Bydd yr ateb parhaol yn cynnwys sefydlu proses cydsynio seilwaith mawr pwrpasol i Gymru a bydd yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol.

75. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ar y trywydd iawn i ddarparu'r dull interim mewn pryd. Ar ôl ymgynghori ar y trefniadau interim, mae gwaith ar y gweill i lunio pecyn o is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i gyflwyno'r trefniadau cydsynio erbyn 1 Ebrill 2019.

Ein barn

Bydd angen gwneud cryn dipyn o waith i ddatblygu'r Bil ar gyfer y broses gydsynio barhaol arfaethedig. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddyraniad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer gwaith paratoadol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer y Bil hwn.

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei hamserlen ddisgwyliedig ar gyfer y Bil cydsynio ynni.

Argymhelliad 29. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am oblygiadau'r gostyngiad yn y gyllideb arolygu cynllunio ar gyfer gweithrediadau'r arolygiaeth gynllunio. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi ei chynlluniau ar gyfer y maes polisi hwn.

10. Materion eraill

Cyllid trydydd sector

76. Ym mis Ebrill 2018, cyfunwyd nifer o grantiau³¹ yn un cynllun wedi'i seilio ar brosiectau, y "Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant". Mae Ysgrifennydd y

³¹ Gan gynnwys Grant Craidd yr Amgylchedd a'r Grant Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd

Cabinet wedi disgrifio hwn fel cam oddi wrth y grantiau sector ar wahân blaenorol tuag at grant mwy cydweithredol, gyda phwyslais ar ariannu prosiectau.

77. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig,³² cododd Cyswllt Amgylchedd Cymru bryderon ynghylch y newid hwn mewn dull, gan nad yw ei waith polisi ac eirioli parhaus wedi'i seilio ar brosiectau. Bydd colli cyllid craidd yn cael effaith sylweddol ar sefydliadau trydydd sector eraill mewn amgylchiadau tebyg.

78. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

“I met with Wales Environment Link last week... and had a discussion. I know they were concerned about that. I think there's some misinterpretations of it and I think it's really important that we have transparency when we're spending public money. So, I think, moving from core funding to project funding will enable that and I think it will be much clearer what everyone's getting for their money.”³³

Gwastraff

79. Mae dyraniadau refeniw ar gyfer Gwastraff (Llinell Wariant yn y Gyllideb 2190) wedi cynyddu o £32.059 miliwn yng nghyllideb derfynol 2018-19 i £36.655 miliwn ar gyfer 2019-20. Mae'r dyraniad ychwanegol yn cynnwys £2.8 miliwn ar gyfer ail-sefydlu grantiau gwastraff penodol. Disgrifir hyn yn nhystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet fel gwrthdroi toriad blaenorol.

Argymhellion

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar unrhyw asesiad effaith a gynhaliwyd o ran ei phenderfyniad i gyfuno sawl grant yn un grant wedi'i seilio ar brosiectau, y “Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant”. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am effaith y penderfyniad hwn yn ei thyb hi.

Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y dyraniad o £2.8 miliwn i wrthdroi' toriad blaenorol o ran y Grant Gwastraff Penodol i Awdurdodau Lleol. Dylai hyn esbonio diben y grant; y rhesymau am y gostyngiad blaenorol; a'r rhesymau am wrthdroi'r gostyngiad.

³² <http://senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=309&RPID=1513158621&cp=yes>

³³ <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5084>